

RHAN 5 CODAU A PHROTOCOLAU

RHAN 5.3

Cyflwyno Sylwadau i'r Cyngor Sir ar Geisiadau Cynllunio

Y Protocol

Mae'r awdurdod yn rhoi gwybod i aelodau'r cyhoedd (y gohebwy'r) am yr hawl i annerch y Pwyllgor Cynllunio pan dderbynnir gwrthwynebiadau neu sylwadau, a phan gydnabyddir derbyn gohebiaeth.

Cynghorir y gohebydd i gysylltu â'r swyddog achos (y darperir ei enw), i drafod y protocol a dyddiad tebygol a lleoliad y cyfarfod o'r Pwyllgor a fydd yn trafod y cais.

Bydd adroddiad y swyddog ar gael ar dudalennau'r awdurdod ar y rhyngwrwyd, sef: www.sirgar.gov.uk, dri diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod.

Bydd gan uchafswm o ddau wrthwynebydd o wahanol gyfeiriadau sydd wedi codi ystyriaethau cynllunio perthnasol hawl i annerch y Pwyllgor. Bydd y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd yn penderfynu a yw'r mater a godir yn ystyriaeth gynllunio berthnasol neu beidio.

Os derbynnir mwy na dau gais i annerch y Pwyllgor Cynllunio ynghylch cais cynllunio, y ddau gais cyntaf sy'n dod i law mewn pryd fydd yn cael yr hawl i annerch y Pwyllgor.

Bydd yn rhaid i wrthwynebwyr gyflwyno ceisiadau i siarad yn ysgrifenedig i'r Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd cyn cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio fel a ganlyn:

Diwrnod y Pwyllgor	Dyddiad cau cyflwyno cais i siarad (hanner dydd)
Dydd Llun	Y Dydd Mercher blaenorol
Dydd Mawrth	Y Dydd Iau blaenorol
Dydd Mercher	Y Dydd Gwener blaenorol
Dydd Iau	Y Dydd Llun blaenorol
Dydd Gwener	Y Dydd Mawrth blaenorol

Mae hawl gan yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd i ymateb i wrthwynebiadau; ond ni chaiff siarad dim ond er mwyn hyrwyddo'r cynllun. Os na dderbynnir gwrthwynebiad, ni fydd hawl gan yr ymgeisydd i annerch y Pwyllgor.

Rhaid hysbysu'r ymgeisydd o leiaf 24 awr cyn y cyfarfod bod gwrthwynebydd/gwrthwynebwyr wedi cofrestru i siarad.

Rhaid rhoi gwybod i'r Aelodau Lleol bod aelodau o'r cyhoedd yn dymuno annerch y Pwyllgor.

Cynghorir Aelodau Lleol sydd am annerch y Pwyllgor Cynllunio (yn unol â'u hawliau o dan Adran 2.6 o Ran 5.2 o'r cyfansoddiad sef y Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr a Swyddogion ynghylch Materion Cynllunio) i gysylltu â'r Swyddog Achos a/neu Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio 24 awr cyn y cyfarfod.

Os bydd cais yn cael ei ohirio, bydd uchafswm o ddau wrthwynebydd fesul cais yn cael dewis naill ai annerch y Pwyllgor gwreiddiol neu'r Pwyllgor dilynol. Ni fydd gwrthwynebwyr sydd eisoes wedi siarad ynghylch y cais yn y Pwyllgor Cynllunio gwreiddiol yn gallu annerch y Pwyllgor dilynol.

Trefn y cyflwyniadau i'r Pwyllgor fydd:

- Sylwadau agoriadol, braslun o'r cefndir ac adroddiad gan y swyddog
- Gwrthwynebydd/cynrychiolydd - dau siaradwr fesul cais cynllunio (uchafswm o 5 munud yr un)
- Ymgeisydd/asiant
- Aelod(au) lleol - cynghorydd/cynghorwyr sir lleol (uchafswm o 5 munud, neu 5 munud fesul aelod lleol ar gyfer dwy ward/aml-ward)
- Cwestiynau a sylwadau gan aelodau'r Pwyllgor
- Crynodeb gan y swyddog
- Penderfyniad

Nodiadau

Rhaid i'r protocol fod ar gael i'r cyhoedd gael golwg arno ym mhob cyfarfod, a rhaid i'r Cadeirydd amlinellu'r broses ar ddechrau'r cyfarfod.

Rhaid i eitemau y dymuna'r cyhoedd gyflwyno sylwadau arnynt i'r Pwyllgor gael eu hystyried ar ddechrau'r cyfarfod yn ôl trefn a benderfynir gan y Cadeirydd.

Bydd y Cadeirydd, y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd, a chynrychiolydd cyfreithiol yn archwilio unrhyw sylwadau hwyr a ddaw i law cyn eu dosbarthu. Bydd pob deunydd hwyr yn cael ei gofnodi yn y cofnodion a'i ddsbarthu os bydd yn berthnasol i'r materion dan drafodaeth.

Ni fydd cais ymgeisydd am ohirio'r cynnig yn cael ei ganiatáu ond os yw'r wybodaeth a dderbynnir yn ymwneud â materion perthnasol/ychwanegol i'r hyn a gynhwysir yn yr adroddiad.

Diwygiwyd: 09/02/2022